**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Cofnodion: PAC(3)-12-10: 23 Medi 2010**

Gellir gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV ar:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf

**Amser: 13.30 – 15.10**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Jonathan Morgan (Cadeirydd), Gogledd Caerdydd
Peter Black, Gorllewin De Cymru
Jeff Cuthbert, Caerffili
Irene James, Islwyn
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Sandy Mewies, Delyn
Janet Ryder, Gogledd Cymru
Nick Ramsay, Sir Fynwy

### Eraill yn bresennol

Gillian Body, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Anthony Barrett, Partner Rheoli, Swyddfa Archwilio Cymru
Andy Bruce, Arbenigwr Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru
Ceri Stradling, Partner Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru
Jason Blewitt, Rheolwr Archwilio Cyllid, Swyddfa Archwilio Cymru
Stephen Lisle, Arbenigwr Perfformiad, Swyddfa Archwilio Cymru
Alan Morris, Partner Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru

### Committee Staff

Alun Davidson, Clerc
Andrew Minnis, Dirprwy Glerc
Joanest Jackson, Cynghorydd Cyfreithiol

### 1. Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lorraine Barrett, Alun Davies a Bethan Jenkins. Roedd Ann Jones yn dirprwyo ar ran Alun Davies.

1.3 Datganodd y Cadeirydd fwriad y Pwyllgor i holi Archwilydd Cyffredinol newydd Cymru ynghylch canfyddiadau'r broses ddiwydrwydd ddyladwy a gwblhawyd yn ddiweddar. Diolchodd y Cadeirydd i'r Archwilydd Cyffredinol dros dro am ei gwaith yn ystod cyfnod ei phenodiad.

**2. Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu – papur dadansoddi ar gyfer Cymru: gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Papur: PAC(3) 12-10 (p1) Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu - adroddiad ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a'r Comisiwn Archwilio
PAC(3) 12-10 (p2) Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu yng Nghymru

2.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wybodaeth i'r Pwyllgor am yr adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru, Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu yng Nghymru.

2.2 Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu eglurhad o'r ffigyrau a ddarperir yn yr adroddiadau a gyflwynwyd. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Prif Gwnstabliaid Heddlu Cymru i roi tystiolaeth i'w ymchwiliad: Ymateb i'r Her o Gyllido'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**3. Comisiwn Coedwigaeth Cymru – arian cyhoeddus ar gyfer Coetiroedd Ffynone a Chilgwyn: gwybodaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Papur: PAC(3) 12-10(p3) Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru – Comisiwn Coedwigaeth Cymru – arian cyhoeddus ar gyfer Coetiroedd Ffynone a Chilgwyn

3.1 Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru wybodaeth i'r Pwyllgor am adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru - arian cyhoeddus ar gyfer Coetiroedd Ffynone a Chilgwyn.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor i glywed tystiolaeth gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru. Cytunodd Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddarparu gwybodaeth bellach am y mater hwn.

**4. Gofal Heb ei Drefnu – datblygu dull o weithredu ar sail systemau cyfan: cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Papur: PAC(3) 12-10(p4) Gofal heb ei Drefnu: ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
PAC(3) 12-10(p4A) Gofal heb ei Drefnu: ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru – Atodiad 1
PAC(3) 12-10(p5) Gofal heb ei Drefnu: cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

4.1 Trafododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â chyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i glywed tystiolaeth gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr newydd Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gynnar yn 2011.

**5. Datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau busnes yn Llywodraeth Cynulliad Cymru (15.15 – 15.30)**
Papur: PAC(3) 12-10(p6) Datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau busnes: gohebiaeth oddi wrth Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cynulliad Cymru
PAC(3) 12-10(p7) Datblygu cynaliadwy a gwneud penderfyniadau busnes: cyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

5.1 Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â chyngor gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i argymell y dylai'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ailgydio yn y mater hwn yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

**Cytunodd y Pwyllgor i gynnal gweddill y cyfarfod mewn sesiwn breifat, yn unol â Rheol Sefydlog 10.37**

**6. Adolygu blaenraglen waith y Pwyllgor**

6.1 Adolygodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith a'r materion Pwyllgor a gododd wrth adolygu'r rheolau sefydlog.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Medi 2010**